Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Dinbych Uchaf**

**Canolfan Seion**
**Stryd Henllan**
**Dinbych**
**LL16 3PE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

01/12/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Cylch Dinbych Uchaf

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Dinbych Uchaf |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers ailgofrestru. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus am fod eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion yn cael eu hystyried. Maent yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am bethau sy'n effeithio arnynt. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff yn gyson dda ac mae'r plant yn cydweithredu'n dda. Mae'r plant yn frwdfrydig yn eu profiadau chwarae a dysgu. Maent yn mwynhau amrywiaeth dda o gyfleoedd diddorol dan do ac yn yr awyr agored a gallant ddewis ymlacio a chael cyfnodau tawel. Mae'r plant yn cael amrywiaeth o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus.

Mae llawer o'r staff yn datblygu eu dealltwriaeth ac yn gweithio tuag at roi'r rhan fwyaf o'r polisïau a'r gweithdrefnau ar waith er mwyn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol a llesiant mewn ffordd addas. Mae'r staff yn rhyngweithio'n gadarnhaol, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Maent yn sensitif i anghenion pob plentyn. Mae'r staff yn trefnu profiadau chwarae a dysgu priodol dan do ac yn yr awyr agored.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn lân, yn groesawgar ac yn gynnes. Maent wedi gweithio'n galed i drefnu ardal chwarae dan do ddeniadol sy'n diwallu anghenion y plant ac yn eu galluogi i gyrraedd eu llawn botensial. Mae'r ardal awyr agored yn addas i'r plant feithrin eu sgiliau corfforol a'u sgiliau cydgysylltu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn gallu cael gafael ar amrywiaeth eang o ddodrefn, teganau a chyfarpar o ansawdd da ac sy'n addas ar gyfer oedran y plant er mwyn ennyn eu diddordeb a thanio eu dychymyg.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ei reoli'n briodol. Maent wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni / gofalwyr a'r gymuned leol. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau.

## Llesiant Da

Caiff safbwyntiau a diddordebau'r plant eu gwerthfawrogi a gweithredir arnynt. Maent yn cael cyfleoedd da i ddilyn eu diddordebau chwarae a dysgu.

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus ac maent yn mynegi eu hunain yn dda. Er enghraifft, mae'r plant yn awyddus i ddangos yr eitemau y maent yn mwynhau chwarae gyda nhw ac i gyflwyno eu hunain. Maent yn mwynhau siarad â'r staff am eu teuluoedd a'r hyn y maent yn ei wneud gartref. Yn ystod sesiwn chwarae yn yr awyr agored, gofynnodd plentyn i aelod o'r staff yn gwrtais a allai fynd i nôl ei ddoli o'r ardal chwarae dan do; ymatebodd yr aelod o staff mewn modd amserol, gan wneud i'r plentyn wenu'n fodlon.

Mae'r plant yn hapus ac yn setlo'n gyflym am eu bod yn cael eu cyfarch gan staff cyfeillgar. Maent yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol a gwnaethant ddangos sut maent yn golchi eu dwylo ac yn paratoi at amser byrbryd.  Mae'r plant yn ddigon bodlon mynd at y staff i ofyn iddynt chwarae gyda nhw, i sgwrsio â nhw neu i gael sicrwydd pan fo angen.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a gyda'r rheini sy'n gofalu amdanynt. Maent yn mwynhau cymdeithasu amser bwyd; maent yn gwrtais ac yn eistedd yn daclus wrth y bwrdd. Maent yn dysgu i gymryd eu tro ac i rannu. Er enghraifft, cymerodd y plant eu tro i ddewis y cogiau pren i adeiladu tŵr. Roeddent yn rhannu'r adnoddau yn dda yn ystod y gweithgaredd chwarae gyda thoes a gwnaethant ddefnyddio amrywiaeth o dorwyr tymhorol i greu eu heitemau. Mae'r plant yn dysgu am garedigrwydd. Er enghraifft, gofynnodd blentyn i un o'i ffrindiau a oedd yn iawn ac a oedd eisiau byrbryd arall.

Mae'r plant yn ddysgwyr egnïol a chwilfrydig. Maent yn mwynhau gwneud eu dewisiadau eu hunain am yr hyn yr hoffent chwarae ag ef ac yn dilyn eu diddordebau'n dda. Mae'r plant yn mwynhau gwisgo i fyny i ddatblygu eu chwarae dychmygus. Er enghraifft, dewisodd un plentyn wisgo i fyny mewn gwisg swyddog tân a gwisgodd blentyn arall i fyny mewn kimono Japaneaidd, gan gerdded o gwmpas yr ardal chwarae yn chwarae'r cymeriad. Mae'r plant yn datblygu eu sgiliau llawysgrifen yn dda drwy ddefnyddio byrddau golau electronig rhyngweithiol. Gwnaethant ganolbwyntio'n dda wrth ddefnyddio'r pin ysgrifennu i greu marciau, siapiau a symbolau. Yn ystod sesiwn chwarae yn yr awyr agored, gwnaeth y plant ddatblygu eu chwilfrydedd drwy ddefnyddio morthwylion bach i dorri'r dŵr a oedd wedi rhewi yn yr hambwrdd archwilio. Roeddent yn meithrin eu sgiliau corfforol yn briodol wrth reidio beiciau a mynd â'u doliau am dro yn y bygi.

Mae'r plant yn meithrin eu sgiliau annibyniaeth mewn ffordd gadarnhaol. Yn ystod amser byrbryd, gallant arllwys eu diodydd eu hunain a helpu eu hunain i ddarnau o ffrwythau. Mae'r plant yn mwynhau amser tawel a chwarae yn annibynnol. Er enghraifft, roedd plentyn yn mwynhau chwarae gyda'r offerynnau cerdd a'u harchwilio tra roedd ei ffrindiau yn

eistedd yn gyfforddus yn yr ardal ymlacio yn darllen llyfrau. Mae'r plant yn dysgu sut i wneud pethau drostynt eu hunain gydag anogaeth gadarnhaol gan y staff.

## Gofal a Datblygiad — Digonol

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda. Maent yn cefnogi'r plant i siarad a mynegi eu hunain yn hyderus ac yn ymateb mewn ffordd gyson ac amserol i'w ceisiadau. Mae'r staff yn darparu gofal mewn ffordd gynnes a chyfeillgar.

Mae'r person â chyfrifoldeb yn hyderus am y gweithdrefnau diogelu. Fodd bynnag, nid oedd gan bob aelod o'r staff ddealltwriaeth briodol o'r polisi diogelu ar gyfer y lleoliad nac o Weithdrefnau Diogelu Cymru. Wrth drafod hyn â'r person â chyfrifoldeb, gwnaeth gydnabod hyn a chadarnhaodd y caiff gweithdrefnau diogelu eu trafod eto â phob aelod o'r staff. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Mae'r staff yn cofnodi presenoldeb y plant a'u presenoldeb eu hunain yn gyson fel rhan o'u harferion diogelu ehangach er mwyn sicrhau diogelwch y plant. Mae'r staff yn deall ac yn gweithredu'r rhan fwyaf o'r polisïau a'r gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn briodol. Fodd bynnag, dim ond yn rhannol roedd y staff yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar fwyd a maeth. Maent yn darparu opsiynau hydradu iach i'r plant eu hyfed, sef llaeth neu ddŵr. Mae'r staff yn annog y plant i olchi eu dwylo er mwyn datblygu eu harferion hylendid personol yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol sy'n addas i ystod oedran y plant sy'n derbyn gofal.

Mae'r staff yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau, ond nid yw pob cofnod yn cael ei gwblhau'n llawn a'i lofnodi gan y rhieni / gofalwyr i ddangos eu bod wedi cael eu hysbysu. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Nid yw'r gweithdrefnau newid cewynnau yn cydymffurfio'n llawn â'r canllawiau rheoli heintiau cyfredol. Er enghraifft, ni wnaeth y staff newid eu menyg untro ar ôl cael gwared â'r cewyn a chyn gwisgo'r plentyn. Yn dilyn ein hymweliad, cadarnhaodd y person â chyfrifoldeb ei bod bellach wedi ymdrin â'r mater hwn. Mae'r staff yn cynnal ymarferion tân rheolaidd fel bod y plant a'r staff yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng.

Mae'r staff yn dangos esiampl dda ac yn annog y plant i wneud ffrindiau, chwarae gyda'i gilydd a bod yn garedig i'w ffrindiau. Maent yn rhyngweithio mewn ffordd gynnes a chroesawgar ac yn sicrhau bod y plant yn cael sicrwydd a chysur pan fydd angen. Mae hyn yn creu awyrgylch tawel, cyfforddus a hapus.

Mae gan y staff ddull ymatebol o gynllunio gweithgareddau ac maent yn canolbwyntio ar sicrhau bod y plant yn arwain eu chwarae eu hunain mewn modd cadarnhaol. Mae'r staff yn cadw cofnod o gynnydd y plant ac yn cynllunio ar gyfer datblygiad pob plentyn. Mae'r staff yn ymatebol ac yn sensitif i anghenion unigol pob plentyn.

Mae'r staff yn hyrwyddo dysgu'r plant am eu cymdeithas ehangach ac wedi trefnu gweithgareddau a chreu arddangosfeydd hyfryd i godi ymwybyddiaeth y plant o'u cymuned leol, treftadaeth a diwylliant Cymru. Roedd ffotograffau yn dangos y plant yn mwynhau ymweliadau â siop flodau leol i brynu blodau, yn siopa am bwmpenni mewn archfarchnad leol, yn bwyta byrbryd mewn caffi, yn mynd am dro i'r llyfrgell ac yn cwrdd ag un o swyddogion yr heddlu. Mae profiadau o'r fath yn helpu'r plant i wella eu sgiliau cymdeithasol.

| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
|---|---|

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd croesawgar, cyfeillgar a glân lle gall y plant chwarae a dysgu'n annibynnol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod asesiadau risg yn nodi'r peryglon posibl i'r plant yn briodol ac yn nodi manylion y mesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trefnu gweithdrefnau glanhau rheolaidd sy'n adlewyrchu arferion hylendid da. Mae gwybodaeth ar gael i bawb am sut i ddelio ag argyfyngau. Roedd y dyddiadau ar rai eitemau o gyfarpar yn y blwch cymorth cyntaf wedi mynd heibio. Mae'r staff yn goruchwylio'r plant yn dda drwy gydol eu profiadau chwarae a dysgu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gweithio'n galed i greu amgylchedd dan do hyfryd. Maent yn sicrhau bod digon o adnoddau i feithrin sgiliau iaith, rhifedd a hunanymwybyddiaeth y plant. Maent yn sicrhau bod adnoddau wedi'u hailgylchu ac adnoddau cynaliadwy ar gael yn hwylus i'r plant er mwyn meithrin eu sgiliau synhwyraidd a'u chwilfrydedd ymhellach. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod ardal ddynodedig ar gyfer eitemau personol y plant, ac mae hyn yn creu ymdeimlad o berthyn. Maent yn cyflwyno gwaith celf y plant mewn ffordd ddeniadol ac mae hyn yn dangos i'r plant bod eu hymdrechion yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwneud yn siŵr bod cynllun yr ardal chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth y plant, gan eu galluogi i archwilio a gwneud eu dewisiadau eu hunain am yr eitemau y maent am chwarae â nhw yn ddirwystr. Mae'r ardaloedd chwarae yn fawr ac wedi'u trefnu'n ddeniadol gyda theganau o ansawdd da, adnoddau a dodrefn sy'n addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n derbyn gofal. Caiff ardaloedd gorffwys eu cyflwyno mewn ffordd greadigol ac maent yn gwahodd plant i gael amser tawel i ddarllen llyfrau.

Esboniodd y person â chyfrifoldeb y cynlluniau sydd ar waith i wella'r amgylchedd chwarae awyr agored. Mae dewis addas o gyfarpar ac adnoddau er mwyn helpu i ddatblygu sgiliau corfforol a sgiliau cydsymud y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi trefnu ardaloedd i'r plant ddysgu am y byd naturiol ac am blannu a thyfu blodau a bwydo adar.

| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |
|---|---|

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r gwasanaeth yn briodol. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau er mwyn cydymffurfio â rheoliadau a safonau.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddatganiad o ddiben boddhaol cyfredol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir. Nid ydynt yn adolygu eu holl bolisïau a gweithdrefnau yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cyfeirio at ddeddfwriaeth a chanllawiau cyfredol yng Nghymru. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gosod disgwyliadau clir ac yn rheoli eu timau mewn ffordd foddhaol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg. Maent yn cyflawni rhwymedigaethau'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymgysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), ac yn hysbysu AGC am ddigwyddiadau o bwys.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi llunio adroddiad sy'n adolygu ansawdd y gofal a ddarperir, gan nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda a thynnu sylw at yr hyn sydd angen ei wella. Maent wedi casglu sylwadau gan y rhieni a'r plant ond nid ydynt wedi cynnwys sylwadau gan y staff nac asiantaethau proffesiynol eraill er mwyn eu galluogi i werthuso'r lleoliad yn llawn.

Nid oes gan bob person sy'n rhedeg y lleoliad dystysgrif fanylach gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Er enghraifft, nid oedd tystysgrif yr unigolyn cyfrifol yn gyfredol. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.  Yn dilyn ein hymweliad, cadarnhaodd yr unigolyn cyfrifol ei fod wedi cymryd camau priodol i adnewyddu ei dystysgrif DBS. Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol wedi'i chasglu yn ffeiliau cyflogaeth y staff er mwyn cadarnhau addasrwydd yr unigolyn ar gyfer ei rôl yn gofalu am blant. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol wedi cael ei chynnwys yng nghofnodion unigol y plant. Nid yw'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd ac ystyrlon er mwyn myfyrio ar ei ymarfer, anghenion hyfforddiant, datblygiad proffesiynol ac i godi unrhyw bryderon diogelu. Cyflwynwyd samplau o arfarniadau blynyddol y staff. Cadarnhaodd y person â chyfrifoldeb nad yw wedi cael sesiynau goruchwylio nac arfarniad ffurfiol. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y lleoliad, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni / gofalwyr. Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw bod eu plant yn datblygu'n dda a'u bod yn hapus ac wedi setlo yn y lleoliad. Dywedodd y rhieni fod y staff yn hawdd mynd atynt ac yn "*brilliant*". Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn datblygu gwybodaeth y plant am

eu cymuned er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'u hamgylchedd lleol ac i wella eu sgiliau cymdeithasol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 22 | Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi darllen a deall y polisi diogelu er mwyn rhoi'r polisi a'r gweithdrefnau ar waith yn hyderus, yn briodol ac yn gywir. | Newydd |
| 30 | Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod unrhyw ddamweiniau a digwyddiadau yn cael eu cofnodi'n gywir gan nodi'r wybodaeth yn llawn a bod y rhieni / gofalwyr yn llofnodi'r cofnod er mwyn dangos eu bod wedi cael eu hysbysu. | Newydd |
| 28 | Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau y caiff yr holl wybodaeth ofynnol ei choladu yn ffeiliau cyflogaeth y staff er mwyn dangos tystiolaeth eu bod yn addas ar gyfer eu rolau yn gofalu am blant. | Newydd |
| 6 | Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod ei dystysgrif DBS yn gyfredol. | Newydd |
| 29 | Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael sesiynau goruchwylio un i un ystyrlon a rheolaidd sy'n ei annog i feddwl am ansawdd ei ymarfer a chodi unrhyw bryderon o ran diogelu. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael arfarniad ffurfiol o leiaf unwaith y flwyddyn. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 12 - Bwyd a diod | Dilyn canllawiau bwyd a maeth Llywodraeth Cymru i leoliadau gofal plant er mwyn sicrhau bod y byrbrydau a gaiff eu darparu o ansawdd da, yn gytbwys o safbwynt maeth ac yn briodol o ran maint. |

| | |
|---|---|
| Safon 18 - Sicrhau ansawdd | Gofyn am sylwadau gan y staff ac asiantaethau proffesiynol eraill a'u cynnwys wrth lunio'r adroddiad sy'n adolygu ansawdd y gofal er mwyn gwerthuso'r lleoliad yn llawn. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| **Arferion Gorau** |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau y caiff yr holl bolisïau a gweithdrefnau eu hadolygu'n rheolaidd a'u bod yn cynnwys deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol Cymru a nodi'r dyddiadau adolygu hyn. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 16/01/2024